

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22

Chwefror 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddNHAMG

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddNHAMG@senedd.cymru**

Twitter: **[@SeneddNHAMG](https://twitter.com/SeneddNHAMG)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22

Chwefror 2021



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddNHAMG

Cadeirydd y Pwyllgor:



Mike Hedges AS
Llafur Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Janet Finch Saunders AS
Ceidwadwyr Cymreig



Llyr Gruffydd AS
Plaid Cymru



Neil Hamilton AS
UKIP Cymru



Jenny Rathbone AS
Llafur Cymru



Joyce Watson AS
Llafur Cymru

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Rhianon Passmore AS
Llafur Cymru

Cynnwys

| | |
|--|-----------|
| Argymhelliad | 5 |
| 1. Cyflwyniad | 9 |
| 2. Datgarboneiddio | 12 |
| 3. Ynni | 15 |
| 4. Ansawdd aer | 18 |
| 5. Bwyd a diod | 20 |
| 6. Amaethyddiaeth | 22 |
| 7. TB Buchol | 25 |
| 8. Bridio a gwerthu cŵn | 27 |
| 9. Cyfoeth Naturiol Cymru | 29 |
| 10. Llifogydd ac erydu arfordirol | 31 |
| 11. Bioamrywiaeth | 34 |
| 12. Y môr a physgodfeydd | 37 |
| 13. Gwastraff | 39 |

Argymhelliad

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw canfyddiadau'r Tasglu Adferiad Gwyrdd wedi dylanwadu ar ddyraniadau yn 2021-22 a sut. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i ni ar y mater hwn cyn cynnig y gyllideb flynyddol.Tudalen 11

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru fyfyrion ar ganfyddiadau adroddiadau diweddar a chynghor diwygiedig y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd cyn cwblhau'r gyllideb. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlyniad cyn gynted â phosibl, a chyn y cynnig cyllideb blynyddol. Tudalen 14

Argymhelliad 3. Mae'n rhaid i'r Gweinidog ymrwymo i sicrhau:

- bod gan yr ail Gynllun Cyflawni Carbon Isel asesiad cysylltiedig o'i oblygiadau ariannol, gan gynnwys costau a buddion, ac asesiad o effaith garbon pob polisi neu ymyriad; a
- bod effaith garbon polisiau yn y Cynllun yn ddigon gyda'i gilydd i gyflawni'r drydedd gyllideb garbon. Tudalen 14

Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog egluro a yw canlyniad y prosiect treialu i amcangyfrif effaith garbon penderfyniadau gwariant yn 2020-21 wedi dylanwadu ar ei dull o ddyrannu'r gyllideb yn 2021-22 a sut y gwnaed hynny. Tudalen 14

Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog ddarparu rhagor o fanylion am:

- sut y defnyddir y dyraniad ychwanegol i Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru;
- sut y bydd yn cyfrannu at gyflawni sector cyhoeddus di-garbon net ac yn cynyddu ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth leol i 1GW erbyn 2030; a'r
- cynnydd a wnaed tuag at darged 2030 hyd yma.Tudalen 15

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog fyfyrion ar ba un a fydd y cynnydd yn y dyraniad cyllideb ar gyfer tlodi tanwydd yn ddigonol i sicrhau cynnydd ar y lefel a'r cyflymder sy'n ofynnol i gyrraedd y targedau tlodi tanwydd arfaethedig a nodir yn y Cynllun newydd. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlyniad cyn gynted â phosibl, a chyn y cynnig cyllideb blynyddol.Tudalen 17

Argymhelliad 7. Dylai'r Gweinidog egluro:

- cost cyflawni gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref trwy Nest yn 2020-21; a'r
- dyraniadau arfaethedig yn 2021-22 i Arbed a Nyth, a'r nifer amcanol o aelwydydd a fydd yn derbyn gwelliannau i'r cartref o dan bob cynllun.Tudalen 17

Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at gyflawni'r camau 'tymor byr' a nodir yn y Cynllun Aer Glân..... Tudalen 19

Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog egluro faint o arian a ddyrannwyd yn 2021-22 i gyflawni'r camau a nodir yn y Cynllun Aer Glân. Tudalen 19

Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog egluro lefel y cyllid sydd ar gael i gefnogi cyflwyniad cynllun adfer Covid-19 ar gyfer y diwydiant bwyd a diod, gan gynnwys dyraniadau yng nghyllideb ddrafft 2021-22.Tudalen 21

Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor maes o law ar ganfyddiadau'r asesiad cost ar gyfer cyflawni strategaeth fwyd newydd Llywodraeth Cymru.....Tudalen 21

Argymhelliad 12. Dylai'r Gweinidog barhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i ailystyried y fethodoleg ar gyfer pennu cyllid i ddisodli cyllid yr UE ar gyfer cymorth amaethyddol a mynd i'r afael â'r diffyg yn y cyllid ar gyfer 2021-22. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlyniad cyn gynted ag y bo'n ymarferol..... Tudalen 24

Argymhelliad 13. Dylai'r Gweinidog ystyried a oes achos dros arian ychwanegol o fewn cyllideb ehangach Llywodraeth Cymru i wrthbwysu'r diffyg yn y cyllid i ddisodli cyllid yr UE ar gyfer cymorth amaethyddol..... Tudalen 24

Argymhelliad 14. Dylai'r Gweinidog ddarparu mwy o fanylion am:

- y meysydd polisi y mae'n ystyried y gallai bylchau posibl godi ynddynt o ganlyniad i flaenoriaethu cyllid i fynd i'r afael â'r diffyg;
- sut y bydd hyn yn effeithio ar gyflawni yn y meysydd polisi hynny; a'r
- camau y mae'n bwriadu eu cymryd i liniaru hyn. Tudalen 24

Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlynol:

- canlyniad ei thrafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â chyllid newydd i wneud iawn am golli incwm TB yr UE; a'r
- cynnydd a wnaed wrth adolygu'r trefniadau iawndal TB, gan gynnwys amserlen ar gyfer ymgynghori ar newidiadau arfaethedig.

..... Tudalen 26

Argymhelliad 16. Dylai'r Gweinidog egluro lefel y cyllid a ddarperir ar gyfer y prosiect treialu i wella capasiti ar draws gwasanaethau archwilio a gorfodi lles anifeiliaid awdurdodau lleol, gan gynnwys dyraniad y gyllideb ar gyfer 2021-22.

..... Tudalen 28

Argymhelliad 17. Dylai'r Gweinidog ddarparu manylion unrhyw waith sy'n bodoli neu a gynlluniwyd i asesu effaith y prosiect treialu ar alluoedd awdurdodau lleol i orfodi a darparu adnoddau, a chymau gorfodi..... Tudalen 28

Argymhelliad 18. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlynol pa gyfran o'r incwm sydd wedi'i neilltuo o ffermydd gwynt y mae'n bwriadu ei dyrannu i CNC. Tudalen 30

Argymhelliad 19. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar unrhyw asesiad a wneir o'r effaith y bydd atal CNC rhag cario cronfeydd wrth gefn ymlaen yn ei chael ar ei allu i reoli pwysau cyllidebol parhaus, a sut yr ystyriwyd hyn wrth bennu dyraniadau cyllideb CNC yn 2021-22..... Tudalen 30

Argymhelliad 20. Dylai'r Gweinidog ystyried canfyddiadau'r Pwyllgor hwn yn ei adroddiad Llifogydd yng Nghymru wrth bennu cyllid llifogydd CNC yn 2021-22. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ôl gwneud penderfyniad ar ariannu llifogydd. Tudalen 33

Argymhelliad 21. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddechrau rhaglen waith i ddatblygu ffyrdd eraill o ennyn buddsoddiad, megis o'r sector preifat, i gefnogi cyflawniad camau i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a newid hinsawdd. Tudalen 36

Argymhelliad 22. Dylai'r Gweinidog egluro'r dyraniad cyllideb yn 2021-22 ar gyfer Natura 2000. Dylai hefyd nodi ei barn ar ba un a yw'n ddigonol i gyflymu'r broses o gyflawni prosiectau wrth i Gymru ddod allan o'r pandemig..... Tudalen 36

Argymhelliad 23. Dylai'r Gweinidog egluro a yw canfyddiadau'r Tasglu Adferiad Gwyrdd o ran cefnogi'r sector amgylcheddol wedi dylanwadu ar ddyraniadau 2021-22 a sut. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i ni ar y mater hwn cyn y cynnig cyllideb blynyddol.....Tudalen 36

Argymhelliad 24. Dylai'r Gweinidog ddarparu manylion am ddyraniad y gyllideb yn 2021-22 ar gyfer rheolaeth a chadwraeth forol, a sut y caiff ei ddefnyddio.
.....Tudalen 38

Argymhelliad 25. Dylai'r Gweinidog fyfyrto ar ei phenderfyniad blaenorol i beidio ag ymestyn y Grant Cymorth Pysgodfeydd, o ystyried y dystiolaeth a gafwyd gan y Pwyllgor hwn nad yw ymyriadau cymorth ariannol cyfredol yn diwallu anghenion y diwydiant.....Tudalen 38

Argymhelliad 26. Dylai'r Gweinidog egluro effaith yr oedi diweddaraf yn hynt Bil yr Amgylchedd y DU trwy Senedd y DU ar yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Dychwelyd Ernes a'r Cyfrifoldeb Cynhyrchydd Estynedig ar gyfer pecynnu plastig. Dylai'r Gweinidog hefyd osod cynigion ar gyfer gweithredu'r Cynllun Dychwelyd Ernes.....Tudalen 40

Argymhelliad 27. Dylai'r Gweinidog ddarparu manylion unrhyw asesiad a wneir o'r costau gweithredu ar gyfer y Cynllun Dychwelyd Ernes a'r Cyfrifoldeb Cynhyrchydd Estynedig ar gyfer pecynnu plastig. Dylai hefyd adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â chyllid yn y dyfodol i gefnogi gweithrediad y cynlluniau hyn.....Tudalen 40

1. Cyflwyniad

Ein dull gweithredu

1. Clywsom dystiolaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ('y Gweinidog') yn ein cyfarfod ar 14 Ionawr 2021. Darparodd y Gweinidog gyflwyniad ysgrifenedig i'r Pwyllgor cyn y cyfarfod.
2. Oherwydd yr amserlen ar gyfer craffu ar y gyllideb, nid oedd yn bosibl i ni ofyn barn rhanddeiliaid i lywio ein gwaith. Fodd bynnag, rydym ni wedi defnyddio dystiolaeth a gafwyd yn rhan o'n gwaith ehangach ar ymadael â'r UE ac effaith pandemig Covid-19, yn ogystal ag ymatebion i ymgyngoriad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft.

Proses y gyllideb

3. O ganlyniad i bandemig COVID-19, yn hytrach na'r Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr aml-flwyddyn a gynlluniwyd, cynhaliodd Llywodraeth y DU Adolygiad o Wariant blwyddyn ('yr Adolygiad o Wariant') ym mis Tachwedd 2020. Gosododd yr Adolygiad o Wariant setliad Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 yn unig. O'r herwydd, am flwyddyn yn unig y mae Llywodraeth Cymru wedi gosod cynlluniau refeniw a chyfalaf.
4. Effeithiodd cyhoeddiad yr Adolygiad o Wariant ar 25 Tachwedd ar amseriad cyllideb ddrafft 2021-22 Llywodraeth Cymru (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel 'cyllideb ddrafft'). Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22 ar 21 Rhagfyr 2020.
5. Ym mis Tachwedd 2020, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar amserlen ar gyfer ystyried y gyllideb ddrafft a phennodd mai 4 Chwefror 2021 oedd y terfyn amser ar gyfer adrodd. Bydd y Senedd yn trafod y gyllideb ddrafft ar 9 Chwefror 2021.
6. Cyhoeddir a thrafodir cyllideb derfynol 2021-22 ym mis Mawrth 2021.
7. Diben yr adroddiad hwn yw llywio'r ddadl ar y gyllideb ddrafft gyda'r bwriad o ddylanwadu ar gyllideb derfynol 2021-22.

Blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru

8. Yn ôl Llywodraeth Cymru, ei dull gweithredu o ran y gyllideb ddrafft fu "ceisio cynyddu effaith yr adnoddau sydd ar gael, gan gydnabod y bydd yn rhaid i ni barhau i ddelio ag effaith y pandemig ochr yn ochr ag ysgogi newid tymor hwy." Egwyddorion Llywodraeth Cymru sy'n sail i gynigion y gyllideb eleni yw:

- diogelu iechyd y cyhoedd a swyddi yn ystod y pandemig;
- adeiladu dyfodol gwyrddach; ac
- ysgogi newid er mwyn cael Cymru decach a mwy cyfartal.

9. Yn ychwanegol at yr uchod, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod y gyllideb wedi'i pharatoi yng nghyd-destun datganiad Llywodraeth Cymru o argyfwng hinsawdd ym mis Ebrill 2019 a meysydd blaenoriaeth fel datgarboneiddio a gwrthdroi dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Trosolwg o'r dyraniadau

10. Mae cyfanswm y gwariant ar gyfer Prif Grŵp Gwariant (MEG) yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn cynyddu o £654.5 miliwn yng 'nghyllideb ailddatganedig 2020-21 i £721.5 miliwn yng nghyllideb ddrafft 2021-22. Mae hwn yn gynydd o 10.3% (£67.1 miliwn) mewn termau arian parod.

11. Mae refeniw yn cynyddu o £475.5 miliwn yn y gyllideb ailddatganedig i £507.6 miliwn yng nghyllideb ddrafft 2021-22. Cynnydd o 6.7% (£32.1 miliwn) mewn termau arian parod. Mae cyfalaf yn cynyddu o £154.9 miliwn i £189.9 miliwn. Mae hwn yn gynydd o 22.6% (£35 miliwn) mewn termau arian parod.

12. Oni nodir yn wahanol, mae'r cymariaethau a wneir yn yr adroddiad hwn â'r gyllideb ailddatganedig ar gyfer 2020-21, gan fod hyn yn darparu llinell sylfaen fwy perthnasol wrth gymharu gwariant o flwyddyn i flwyddyn.

Ein barn

Daw cyllideb ddrafft 2021-22 ar adeg pan fo'r DU yn parhau i fod yng nghanol pandemig Covid-19, sy'n parhau i gael effaith ddwys ar unigolion, ein cymunedau a'r economi. Ceir consensws eang bod adfer o'r pandemig yn cynnig cyfle hollbwysig i ymdrin â'r argyfyngau hinsawdd a natur sylfaenol. Nid yw newid hinsawdd a dirywiad natur wedi oedi.

Daw Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020 i'r casgliad nad yw Cymru wedi cyrraedd yr un o'r pedwar nod yn y dull gweithredu i reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Rhagwelir y bydd rhywogaethau eiconig, gan gynnwys y gylfinir, wedi diflannu o fewn degawdau. Mae cadernid yr ecosystem yn dirywio yn unol â thueddiadau byd-eang.

O gofio hyn, byddem wedi disgwyl gweld tystiolaeth glir o benderfyniadau gwariant sy'n cefnogi adferiad 'gwyrdd' a 'glas', ac sy'n adlewyrchu'n well frys yr

argyfyngau hinsawdd a natur. Er y bu cynnydd i ddyraniadau mewn rhai meysydd, gan gynnwys yr economi gylchol a bioamrywiaeth, nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod y lefel gyffredinol o fuddsoddiad yn ddigon i ysgogi newid. Rydym yn trafod hyn yn fanylach mewn Penodau diweddarach.

Mae ein gwaith diweddar ar yr adferiad gwyrdd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd dull gweithredu trawslywodraethol. Mae adroddiad y Tasglu Adferiad Gwyrdd yn cynnwys camau blaenoriaethol mewn wyth sector o economi Cymru. Pe cymerir y camau hyn, mae ganddynt y potensial i gyflawni newid ystyrlon. Cyhoeddwyd yr adroddiad tua dechrau mis Rhagfyr 2020, yn fuan cyn y gyllideb ddrafft. Disgwylwn i ganfyddiadau'r adroddiad gael eu hadlewyrchu'n llawn yn y gyllideb derfynol.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw canfyddiadau'r Tasglu Adferiad Gwyrdd wedi dylanwadu ar ddyraniadau yn 2021-22 a sut. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i ni ar y mater hwn cyn cynnig y gyllideb flynyddol.

2. Datgarboneiddio

13. Er mai uchelgais Llywodraeth Cymru yw cyrraedd allyriadau carbon sero net erbyn 2050, ei tharged statudol cyfredol yw gostyngiad o 80% neu fwy i allyriadau yn ôl lefelau 1990 erbyn 2050.

14. Yn dilyn cyngor gan Bwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd ym mis Mai 2019, ymrwymodd y Gweinidog i ddeddfu ar gyfer gostyngiad o 95% neu fwy erbyn 2050. Ym mis Rhagfyr 2020, adolygodd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd ei gyngor gan argymhell bod Cymru yn cyflawni allyriadau sero net erbyn 2050. Ar yr un pryd, cyhoeddodd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd ei adroddiad cynnydd ar leihau allyriadau yng Nghymru.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

15. Honnodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi “parhau i ganolbwyntio ein paratodau cyllidebol ar ddatgarboneiddio ar draws y Llywodraeth”.

16. Cydnabu'r Gweinidog, er bod Cymru ar y trywydd iawn i gyflawni ei chyllideb garbon gyntaf (2016-20) a tharged interim 2020, “bydd cyllidebau a thargedau'r dyfodol yn gofyn mwy fyth.” Dywedodd fod angen “dwysáu” ymdrechion os yw Cymru am gyfrannu'n deg at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

17. Dywedodd y Gweinidog fod swyddogion yn ystyried cyngor diweddaraf y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd ar hyn o bryd, gan gynnwys modelau costau symud tuag at y targed diwygiedig a argymhellir. Ychwanegodd y bydd Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn cyd-fynd â rheoliadau'r dyfodol i ddiwygio'r targed.

18. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio datblygiad ar ei hail Gynllun Cyflawni Carbon Isel, a fydd yn cwmpasu'r ail gyfnod cyllideb carbon (2022-25). Dywedodd y canlynol:

“Gwyddom eisoes y bydd yr uchelgais uwch yn golygu y bydd yn rhaid cynyddu graddfa a chyflymu cyfradd y polisiau y mae eu hangen i gwrdd â'n targed newydd. Bydd yn rhaid i'r camau hyn gael eu hariannu gan y cyllidebau ariannol sy'n cwmpasu'r cyfnod amser hwnnw a byddant yn cael eu pennu gan y camau y dewiswn eu cymryd.”

19. Esboniodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith i asesu dichonoldeb datblygu aseiad carbon o'i gwariant cyllideb. Cyhoeddwyd canlyniad cychwynnol y gwaith hwn ochr yn ochr â'r gyllideb ddrafft.

Ein barn

Rydym yn croesawu'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran lleihau allyriadau carbon, ac mae Cymru ar ei ffordd i gyrraedd ei tharged interim ar gyfer 2020. Mae hwn yn gyflawniad cadarnhaol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni beidio â thanbriso maint yr her sydd o'n blaenau os yw Cymru am gyflawni ei hail gyllideb garbon a tharged interim 2030. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyflymu ymdrechion i leihau allyriadau ar draws pob sector o economi Cymru, ac mae'n rhaid i benderfyniadau gwariant adlewyrchu hyn.

Yn ddiweddar, mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd wedi argymhell targed lleihau allyriadau carbon mwy heriol yng Nghymru. Mae wedi amcangyfrif y bydd cyflawni'r targed a argymhellir yn gofyn am gynnydd parhaus mawr mewn buddsoddiad. Bydd angen i Lywodraeth Cymru ddarparu rhywfaint o hyn. Fel yr ydym wedi nodi mewn adroddiadau blaenorol, nid yw'n eglur pa lefel o fuddsoddiad y mae Llywodraeth Cymru yn ei darparu ar hyn o bryd i ysgogi'r agenda datgarboneiddio. Credwn fod angen gwella tryloywder er mwyn hwyluso gwaith craffu seneddol a chyhoeddus.

Rydym yn cydnabod bod adroddiadau a chyngor diweddaraf y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd wedi'u cyhoeddi ychydig cyn gosod y gyllideb ddrafft. Disgwylwn i Lywodraeth Cymru ystyried y rhain cyn llunio'r gyllideb derfynol. Hoffem i'r Gweinidog adrodd yn ôl i ni ar y mater hwn cyn y cynnig cyllideb blynyddol.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu ei hail Gynllun Cyflawni Carbon Isel ('y Cynllun'). Yn ein hadroddiad cyllideb drafft 2020-21, rydym yn argymhell y dylid cynnwys asesiad o'i oblygiadau ariannol gan gynnwys costau a buddion, ac asesiad o effaith carbon pob polisi neu ymyriad. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd wedi argymhell y dylai effaith ddisgwylidig polisiau yn y Cynllun fod yn ddigon i gwrdd â'r drydedd gyllideb garbon. Rydym yn cefnogi hyn. Rydym yn annog y Gweinidog i fwrw ymlaen â'r argymhellion hyn wrth ddatblygu'r Cynllun.

Yn flaenorol, rydym wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ddadansoddi effaith carbon penderfyniadau cyllideb ac i bob cyllideb ddrafft yn y dyfodol fod ag asesiad cynhwysfawr o'u heffaith garbon gyffredinol. Rydym yn falch, felly, fod Llywodraeth Cymru wedi dechrau ar y gwaith o gyflwyno hyn. Gobeithiwn weld y gwaith hwn yn parhau yn gyflym. Hoffem i'r Gweinidog egluro a yw canlyniad y gwaith hwn wedi dylanwadu ar ei dull o ddyrannu'r gyllideb yn 2021-22 a sut y gwnaed hynny.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru fyfyrion ar ganfyddiadau adroddiadau diweddar a chynghor diwygiedig y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd cyn cwblhau'r gyllideb. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlyniad cyn gynted â phosibl, a chyn y cynnig cyllideb blynyddol.

Argymhelliad 3. Mae'n rhaid i'r Gweinidog ymrwymo i sicrhau:

- bod gan yr ail Gynllun Cyflawni Carbon Isel asesiad cysylltiedig o'i oblygiadau ariannol, gan gynnwys costau a buddion, ac asesiad o effaith garbon pob polisi neu ymyriad; a
- bod effaith garbon polisiau yn y Cynllun yn ddigon gyda'i gilydd i gyflawni'r drydedd gyllideb garbon.

Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog egluro a yw canlyniad y prosiect treialu i amcangyfrif effaith garbon penderfyniadau gwariant yn 2020-21 wedi dylanwadu ar ei dull o ddyrannu'r gyllideb yn 2021-22 a sut y gwnaed hynny.

3. Ynni

Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru

20. Mae dyraniad cyllideb ychwanegol o £2.3 miliwn o refeniw i Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (BEL 2809) (felly cyfanswm y cyllid refeniw yw ychydig llai na £4 miliwn) ac £11 miliwn o gyllid cyfalaf (felly cyfanswm y cyllid cyfalaf yw £13 miliwn). Dywedodd y Gweinidog fod buddsoddiad yn y Gwasanaeth yn canolbwyntio ar brosiectau seilwaith a fydd yn lleihau allyriadau carbon, gan gynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd adnoddau ac ynni o brosiectau gwastraff.

Ein barn

Rydym yn croesawu'r cynnydd yn y dyraniad i Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru. Disgwylw'n i hyn gyfrannu'n werthfawr at gyflawni targed Llywodraeth Cymru i gyflawni sector cyhoeddus di-garbon net a chynyddu capasiti ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth leol i 1GW erbyn 2030. Hoffem ragor o fanylion am sut y bydd y cyllid ychwanegol hwn yn cael ei ddefnyddio a sut y bydd yn cyfrannu at darged 2030. Byddem hefyd yn croesawu diweddariad ar y cynnydd a wnaed tuag at darged 2030.

Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog ddarparu rhagor o fanylion am:

- sut y defnyddir y dyraniad ychwanegol i Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru;
- sut y bydd yn cyfrannu at gyflawni sector cyhoeddus di-garbon net ac yn cynyddu ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth leol i 1GW erbyn 2030; a'r
- cynnydd a wnaed tuag at darged 2030 hyd yma.

Tlodi tanwydd

21. Mae dyraniad refeniw ychwanegol o £1 miliwn, a dyraniad cyfalaf ychwanegol o £4 miliwn (BEL 1270) ar gyfer tlodi tanwydd, gan arwain at gyfanswm cyllideb o £31.3 miliwn. Mae hyn yn cynnwys £8 miliwn o arian yr UE.

22. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun tlodi tanwydd drafft ('y cynllun drafft') i ymgynghori arno ym mis Medi 2020. Mae'r cynllun drafft yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu o fewn pedwar nod polisi trosfwaol

(Nodi, Blaenoriaethu a Diogelu, Datgarboneiddio a Dylanwadu) i leihau tlodi tanwydd ymhellach rhwng nawr a 2035. Mae'n nodi 10 cam gweithredu tymor byr, i'w cyflawni rhwng 2021 a 2023. Mae nifer o'r rhain yn adlewyrchu'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor hwn yn ei adroddiad, Tlodi tanwydd yng Nghymru (Ebrill 2020).

23. Mae'r cynllun drafft yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i ymgynghori ar drefniadau diwygiedig ar gyfer cyflawni dulliau o fynd i'r afael â thlodi tanwydd y tu hwnt i fis Mawrth 2023.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

24. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r Cynllun Tlodi Tanwydd newydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2021. Esboniodd y byddai'r Cynllun newydd yn nodi camau tymor byr i sicrhau bod y targedau nesaf y mae Llywodraeth Cymru yn eu gosod yn gyraeddadwy.

25. Fe wnaethom holi'r Gweinidog ynghylch y posibilrwydd y byddai Llywodraeth y DU yn diddymu treth ar werth (TAW) ar ynni domestig gan fod potensial i ddeddfwriaeth TAW Ewropeaidd gael ei diwygio. Cytunodd y Gweinidog i godi'r mater hwn gyda Llywodraeth y DU.

Ein barn

Yn ein hadroddiad, Tlodi tanwydd yng Nghymru (Ebrill 2020), daethom i'r casgliad, er gwaethaf buddsoddiad parhaus Llywodraeth Cymru yn y Rhaglen Cartrefi Cynnes, fod tlodi tanwydd yn parhau i fod ar lefel annerbyniol. Yn sgil pandemig Covid-19, wrth i fwy o aelwydydd gael anawsterau ariannol, a biliau ynni uwch wrth i bobl aros gartref am gyfnod hirach yn ystod y misoedd oerach, rhagwelir y bydd tlodi tanwydd yn codi. Mae hyn yn destun pryder mawr.

Mewn ymateb i'n hadroddiad ar gyllideb ddrafft 2020-21, cydnabu'r Gweinidog, os oedd yr amcangyfrifon a ddarparwyd i ni yn gywir, y bydd angen mwy na dyblu nifer y cartrefi sy'n elwa ar y Rhaglen Cartrefi Cynnes. Cytunodd i ystyried hyn wrth ddatblygu'r Cynllun Tlodi Tanwydd drafft newydd. Rydym wedi siomi nad yw'r Cynllun drafft yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

Er y bu cynnydd yn y dyraniad cyllideb ar gyfer 2021-22, rydym yn pryderu nad yw'n ddigonol i gyflawni cynnydd ar y raddfa a'r cyflymder sy'n ofynnol i gyrraedd y targedau tlodi tanwydd arfaethedig a nodir yn y Cynllun newydd. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried y cynnydd a ragwelir mewn lefelau tlodi tanwydd. Credwn y dylai'r Gweinidog ystyried hyn.

Rydym wedi tynnu sylw yn flaenorol at gyfyngiadau'r cynlluniau effeithlonrwydd ynni cartref presennol, gan gynnwys nifer yr eiddo sy'n derbyn gwelliannau trwy Arbed. Mae ffigurau 2019-20 yn dangos bod Arbed wedi cyflawni gwelliannau i 1,945 eiddo ledled Cymru am gost o £18.1 miliwn. Yn yr un cyfnod, cyflawnodd NEST 4,544 o welliannau, er bod cost y cyflawni yn aneglur. Byddem yn croesawu eglurhad ynghylch y mater hwn. Byddem hefyd yn croesawu manylion dyraniadau arfaethedig Arbed a Nest yn 2021-22, a'r nifer amcanol o aelwydydd a fydd yn derbyn gwelliannau i'r cartref o dan bob cynllun.

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog fyfyrion ar ba un a fydd y cynnydd yn y dyraniad cyllideb ar gyfer tlodi tanwydd yn ddigonol i sicrhau cynnydd ar y lefel a'r cyflymder sy'n ofynnol i gyrraedd y targedau tlodi tanwydd arfaethedig a nodir yn y Cynllun newydd. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlyniad cyn gynted â phosibl, a chyn y cynnig cyllideb blynyddol.

Argymhelliad 7. Dylai'r Gweinidog egluro:

- cost cyflawni gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref trwy Nest yn 2020-21; a'r
- dyraniadau arfaethedig yn 2021-22 i Arbed a Nyth, a'r nifer amcanol o aelwydydd a fydd yn derbyn gwelliannau i'r cartref o dan bob cynllun.

4. Ansawdd aer

26. Yn ôl y Gweinidog, mae gwella ansawdd aer yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae yna £3.4 miliwn o gyllid refeniw a £17 miliwn o gyllid cyfalaf (BEL 2817) ar gyfer gweithredu ar ansawdd aer, sy'n aros yr un fath â'r flwyddyn flaenorol.

27. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

“Mae'r cyllid a ddyrannwyd yn y gyllideb yn cefnogi rhai ffrydiau gwaith pwysig, yn cynnwys nifer o ymrwymadau yn y Cynllun Aer Glân: Awyr Iach, Cymru Iach. Mae hyn yn cynnwys gwireddu ein hymrwymadau dan Ffyniant i Bawb: ein strategaeth genedlaethol. Yn arbennig, 'lleihau allyriadau a gwneud gwelliannau hanfodol i ansawdd yr aer' er mwyn cefnogi 'cymunedau iachach ac amgylcheddau gwell'.”

28. Mae Cynllun Aer Glân (Awst 2020) Llywodraeth Cymru yn nodi ystod o gamau i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid eu cyflawni i wella ansawdd aer yng Nghymru. Mae'n cynnwys ymrwymiad i gyhoeddi Papur Gwyn ar gyfer Bil Aer Glân, fel modd o gyflawni ymrwymadau a nodwyd yn y Cynllun Aer Glân. Cyhoeddwyd y Papur Gwyn ar 13 Ionawr 2021. Mae'r Gweinidog wedi nodi ei bwriad i gyflwyno Bil Aer Glân yn nhymor nesaf y Senedd.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

29. Pan ofynnwyd iddi pam, o ystyried bod gwella ansawdd aer yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, na fu unrhyw gynnydd yn y dyraniad ar gyfer 2021-22, nododd y Gweinidog fod hynny oherwydd blaenoriaethau cystadleuol, ac felly bu'n rhaid gwneud dewisiadau anodd.

30. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi gofyn i swyddogion ddatblygu amcangyfrifon costau i fwrw ymlaen â'r ymrwymadau yn y Cynllun Aer Glân.

Ein barn

Er ein bod yn croesawu cyhoeddi'r Cynllun Aer Glân, rydym yn cwestiynu pam na chwblhawyd asesiad cynhwysfawr o'r costau cyflawni cyn ei gyhoeddi.

Mae'r Cynllun yn cynnwys ystod o gamau i'w cyflawni, gan gynnwys amserlenni cyflawni. Yn ôl y Cynllun, bydd camau 'tymor byr' yn cael eu cyflawni yn 2020-21. Byddem yn croesawu diweddariad ar y cynnydd tuag at gyflawni'r camau hyn. Byddem hefyd yn croesawu esboniad o faint o arian a ddyrannwyd yn 2021-22 i gyflawni'r camau a nodir yn y Cynllun.

Nodwn fod cyllid sylweddol ar gael trwy'r Gronfa Ansawdd Aer i gefnogi dulliau o wella ansawdd aer yng Nghaerffili a Chaerdydd. Rydym yn dymuno sicrwydd y bydd y dyraniad sy'n weddill yn ddigonol i gefnogi elfennau eraill o waith, gan gynnwys cyflawni'r camau a nodir yn y Cynllun Aer Clir.

Rydym yn croesawu cyhoeddiad y Papur Gwyn ar y Bil Aer Glân (Cymru). Bydd craffu ar unrhyw Fil yn y dyfodol yn fater i bwyllgorau cyfrifol y Chweched Senedd. Gobeithiwn y byddant yn manteisio ar y gwaith paratoi yr ydym wedi'i wneud yn y maes polisi hwn i lywio eu gwaith craffu ar y Bil.

Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at gyflawni'r camau 'tymor byr' a nodir yn y Cynllun Aer Glân.

Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog egluro faint o arian a ddyrannwyd yn 2021-22 i gyflawni'r camau a nodir yn y Cynllun Aer Glân.

5. Bwyd a diod

31. Mae £5.2 miliwn o gyllid refeniw ar gyfer “hybu bwyd Cymru a datblygu’r diwydiant” yn y gyllideb ddrafft, sydd yr un fath â’r flwyddyn flaenorol.

32. Ym mis Gorffennaf, lansiodd Llywodraeth Cymru gynllun adfer COVID-19 tymor byr (12-18 mis) ar gyfer y diwydiant bwyd a diod. Mae’r cynllun yn pontio cynllun gweithredu bwyd a diod 2014-2020 a’r strategaeth tymor hwy newydd arfaethedig, yr ymgynghorwyd arni yn 2019. Roedd gwaith ar y strategaeth newydd wedi’i oedi o ganlyniad i’r ymateb i bandemig Covid-19.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

33. Esboniodd y Gweinidog y byddai’r Strategaeth bwyd a diod newydd yn cael ei chyhoeddi yn 2021. Ychwanegodd:

“until that strategy is brought forward, obviously, the costings, et cetera, will go alongside that. The food and drink part of my portfolio, we’ve maintained the funding because this is one area where we’ve really had to adapt.”

Ein barn

Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar ddiwydiant bwyd a diod Cymru, gan darfu ar gadwyni cyflenwi, a chau’r sectorau lletygarwch a thwristiaeth yn sgil cyflwyno cyfyngiadau cymdeithasol. Mae hyn, ynghyd â heriau sy’n deillio o ymadawiad y DU â’r UE, wedi gadael y diwydiant yn agored ac mae’n golygu bod rhagolwg economaidd ansicr i lawer o fusnesau.

Mae cynllun adfer tymor byr Covid-19 Llywodraeth Cymru yn gam i’w groesawu i helpu i sefydlogi ac ailsefydlu’r diwydiant. Fodd bynnag, nid yw’n eglur pa lefel o gyllid a ddyrannwyd yn 2021-22 i gefnogi cyflwyniad y cynllun.

Nodwn fwriad y Gweinidog i gyhoeddi strategaeth bwyd a diod newydd Llywodraeth Cymru cyn diwedd 2021. Ers mis Mai 2018, rydym ni wedi bod yn galw am strategaeth fwyd newydd gyffredinol ar ôl Brexit sy’n adlewyrchu dull system gyfan. Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi gorfod ail-flaenoriaethu ei rhaglen waith er mwyn paratoi ar gyfer ymadawiad y DU â’r UE ac, yn fwy diweddar, ymateb i bandemig Covid-19. Er gwaethaf hyn, mae’n anffodus bod y strategaeth newydd wedi cymryd cyhyd i ddwyn ffrwyth. Disgwylwn i’r strategaeth newydd fod ag asesiad cynhwysfawr o gost cyflawni yn gysylltiedig â hi, ynghyd â lefel briodol o fuddsoddiad.

Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog egluro lefel y cyllid sydd ar gael i gefnogi cyflwyniad cynllun adfer Covid-19 ar gyfer y diwydiant bwyd a diod, gan gynnwys dyraniadau yng nghyllideb ddrafft 2021-22.

Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor maes o law ar ganfyddiadau'r asesiad cost ar gyfer cyflawni strategaeth fwyd newydd Llywodraeth Cymru.

6. Amaethyddiaeth

34. Er bod cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer cynllun amaethyddol newydd (trafodir isod) mae'r Gweinidog wedi cadarnhau bod disgwyl i'r dull Taliad Uniongyrchol o roi cymorth barhau yn ystod blynyddoedd 2021 a 2022 y cynllun. Mae hi wedi ymrwymo i'r un lefel o gyllid ar gyfer Taliadau Uniongyrchol 2021 ag yn 2020. Dyrennir £238.0 miliwn i Daliadau Uniongyrchol yn y gyllideb ddrafft (BEL 2787).

35. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwarant y bydd holl ymrwymadau'r Rhaglen Datblygu Gwledig sydd ar waith ar ôl gadael yr UE yn cael eu cyflawni ac yn dod i ben ar amryw o gyfnodau (hyd at '2023 a thu hwnt'). Dyrennir £30.8 miliwn i'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn y gyllideb ddrafft (BEL 2949).

36. Ar 25 Tachwedd 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU fod £242 miliwn wedi'i ddyrannu i gefnogi ffermwyr a rheolwyr tir yn rhan o Adolygiad o Wariant 2020 y DU. Ymatebodd Llywodraeth Cymru gyda phryder bod "Llywodraeth y DU wedi methu â chadw at ei hymrwymiad ei hun na fyddai Cymru ar ei cholled o ganlyniad i ymadael â'r UE". Nododd ddiffyg o £137 miliwn yn y cyllid disgwylidig i ffermwyr a chymunedau gwledig Cymru.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

37. Esboniodd swyddog y Gweinidog fod y diffyg o £137 miliwn yn cynnwys £42 miliwn o gyllid a drosglwyddwyd o gyllideb piler 1 2020 PAC a £95 miliwn o wariant arfaethedig Rhaglen Datblygu Gwledig yr UE dros dair blynedd.

38. Awgrymodd swyddog y Gweinidog fod Llywodraeth y DU wedi cydnabod y gwnaed camgymeriad mewn cysylltiad â'r £42 miliwn. Roedd yn dawl obeithiol y byddai Llywodraeth Cymru yn derbyn yr arian hwn.

39. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn parhau i fynd ar drywydd y £95 miliwn gyda Llywodraeth y DU, er bod cyfathrebu'n anodd ac ymatebion yn brin.

40. Honnodd y Gweinidog fod y fethodoleg a ddefnyddiodd Llywodraeth y DU i gyfrifo lefel y cymorth amaethyddol gan fod y DU wedi gadael y Polisi Amaethyddol Cyffredin yn amlwg yn ddiffygiol ac y dylid ei hailystyried.

41. Wrth egluro sut roedd hi wedi gwneud iawn am y diffyg i sicrhau y cynhelir y cyllid ar gyfer Taliadau Uniongyrchol 2021 ar yr un lefel ag yn 2020, dywedodd y Gweinidog:

“I had to do it from my own budget; it couldn't come from anywhere else in the Welsh Government budget. It will, I'm sure, create gaps, but I thought it was important to give that certainty to our farmers for this next financial year...this is how I've prioritised my budget to make sure that I could fulfil the basic payment scheme for the £238 million.”

42. Pan ofynnwyd iddo pam na wnaeth y Gweinidog yr achos dros ddyraniad ychwanegol o gronfeydd canolog i wrthbwysu'r diffyg, dywedodd y Gweinidog:

“Well, I suppose it could, but you'll appreciate we're in the middle of a global pandemic that's taken a huge amount of funding. So, there are other things that I probably will have to go to the centre for. You can't run there all the time, so that's what we've done.”

Ein barn

Yn ein hadroddiad ar Fil Amaethyddiaeth y DU (Ionawr 2019), gwnaethom yn glir na ddylid cosbi'r sector amaethyddol o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE. Fe wnaethom alw am gynnal cyllid ar gyfer y sector ar yr un lefel ag yn 2020, o leiaf yn y tymor byr. Rydym wedi ein siomi, felly, gan y diffyg o £137 miliwn mewn cyllid gan Lywodraeth y DU ar gyfer cymorth amaethyddol.

Nodwn honiad y Gweinidog fod y diffyg wedi codi o ganlyniad i fethodoleg ddiffygiol. Nid yw'n eglur a fydd y fethodoleg hon yn cael ei defnyddio i bennu lefelau cymorth amaethyddol yn y blynyddoedd i ddod. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Gweinidog ddarparu eglurhad ar y mater hwn.

Fe wnaethom bwysleisio yn flaenorol yr angen i Lywodraeth y DU sicrhau bod y trefniadau cyllido ar gyfer cymorth amaethyddol i ddisodli'r PAC yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â'r gweinyddiaethau datganoledig. Rydym wedi'n siomi nad yw'n ymddangos bod hyn wedi digwydd. Rydym yn dymuno sicrwydd y bydd y Gweinidog yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i ailystyried y fethodoleg a mynd i'r afael â'r diffyg mewn cyllid ar gyfer 2021-22. Hoffem i'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y materion hyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Er gwaethaf y diffyg cyllid gan Lywodraeth y DU, mae'r Gweinidog wedi cadw Taliadau Uniongyrchol 2021 ar yr un lefel ag yn 2020, yn unol â'i hymrwymiad blaenorol. O ystyried yr heriau parhaus sy'n wynebu'r sector amaeth yn deillio o bandemig Covid-19 a diwedd cyfnod pontio'r UE, rydym yn croesawu hyn.

I wrthbwysu'r diffyg, mae'r Gweinidog wedi ychwanegu at y cyllid o fewn ei chyllideb adrannol. Yn ôl y Gweinidog, mae'n bosibl y bydd hyn yn creu bylchau cyllid mewn meysydd polisi eraill y mae'n gyfrifol amdanynt. Er ein bod yn cydnabod yr heriau ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru wrth ymateb i bandemig Covid-19, rydym yn cwestiynu pam nad yw'r Gweinidog wedi cyflwyno achos dros gyllid ychwanegol o fewn cyllideb ehangach Llywodraeth Cymru i wrthbwysu'r diffyg. Credwn y dylai'r Gweinidog ystyried hyn.

Hoffem i'r Gweinidog nodi'r meysydd polisi y mae'n ystyried y gallai bylchau posibl mewn cyllid godi ynddynt, sut y bydd hyn yn effeithio ar gyflawni yn y meysydd polisi hynny, a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i liniaru hyn.

Argymhelliad 12. Dylai'r Gweinidog barhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i ailystyried y fethodoleg ar gyfer pennu cyllid i ddisodli cyllid yr UE ar gyfer cymorth amaethyddol a mynd i'r afael â'r diffyg yn y cyllid ar gyfer 2021-22. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlyniad cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Argymhelliad 13. Dylai'r Gweinidog ystyried a oes achos dros arian ychwanegol o fewn cyllideb ehangach Llywodraeth Cymru i wrthbwysu'r diffyg yn y cyllid i ddisodli cyllid yr UE ar gyfer cymorth amaethyddol.

Argymhelliad 14. Dylai'r Gweinidog ddarparu mwy o fanylion am:

- y meysydd polisi y mae'n ystyried y gallai bylchau posibl godi ynddynt o ganlyniad i flaenoriaethu cyllid i fynd i'r afael â'r diffyg;
- sut y bydd hyn yn effeithio ar gyflawni yn y meysydd polisi hynny; a'r
- camau y mae'n bwriadu eu cymryd i liniaru hyn.

7. TB Buchol

43. Mae gofyniad statudol ar Weinidogion Cymru i dalu iawndal TB ar ôl lladd gwartheg. Yn ôl papur y Gweinidog, mae hyn “wedi esgor ar bwysau heb ei ariannu ar gyllidebau ers 2015-16.” Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, mae colled o £1.3 miliwn o incwm TB yr UE (BEL 2269: Incwm UE TB).

44. Mae £7.5 miliwn ar gyfer rheoli a chymryd camau i ddileu TB (BEL 2273: Dileu TB), a arhosodd yn gyson â'r flwyddyn flaenorol.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

45. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn adolygu trefniadau iawndal TB. Ychwanegodd:

“We need to consider the fairest way to pay compensation in light of ongoing budget pressures and, obviously, the loss of the EU funding. We are in discussions with the UK Government to ensure that we get the equivalent funding post EU exit—it’s not guaranteed”.

Ein barn

Rydym wedi'n siomi nad yw Llywodraeth y DU wedi darparu cyllid llawn i ddisodli cyllid yr UE i helpu i dalu cost trefniadau iawndal TB. Rydym yn pryderu y bydd hyn yn cynyddu pwysau cyllidebol a allai, yn ei dro, ddylanwadu ar ganlyniad yr adolygiad arfaethedig o drefniadau. Rydym yn dymuno sicrwydd y bydd y Gweinidog yn parhau i fynd ar drywydd yr angen am gyllid llawn i ddisodli cyllid yr UE gyda Llywodraeth y DU. Hoffem i'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlyniad cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Dywedodd y Gweinidog wrthym yn flaenorol y byddai'n ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i drefniadau iawndal TB cyn diwedd 2020. Byddem yn croesawu diweddariad gan y Gweinidog am y cynnydd a wnaed wrth adolygu'r trefniadau, gan gynnwys pryd mae'r ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig yn debygol o gael ei gyhoeddi.

Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlynol:

- canlyniad ei thrafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â chyllid newydd i wneud iawn am golli incwm TB yr UE; a'r

- cynnydd a wnaed wrth adolygu'r trefniadau iawndal TB, gan gynnwys amserlen ar gyfer ymgynghori ar newidiadau arfaethedig.

8. Bridio a gwerthu cŵn

46. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno rheoliadau i wahardd gwerthiant cŵn bach a chathod bach gan drydydd parti masnachol cyn diwedd y Pumed Senedd. Mae hefyd yn ailedrych ar Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 i wella amodau lles mewn sefydliadau bridio.

47. Nid yw'n eglur o naratif y gyllideb a yw cyllid wedi'i ddyrannu er mwyn gweithredu'r mesurau lles anifeiliaid uchod a faint sydd wedi'i ddyrannu.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

48. Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gyda'r Pwyllgor ynghylch y diffyg gallu ac arbenigedd o fewn awdurdodau lleol i gynnal arolygiadau o sefydliadau bridio cŵn. Dywedodd wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r mater hwn. Ychwanegodd:

“We secured funding for three financial years, from the current financial year—the one we’re in now, that was the first year, and we’ve committed it for three years—to support local authorities with their specific project around enforcement, and that included enhancement of training, better guidance for inspectors, improved use of existing resources within local authorities, and across Wales, and that’s benefited all local authorities across Wales going forward.”

49. Esboniodd y Gweinidog fod grŵp prosiect wedi'i sefydlu, a fyddai'n monitro cynnydd tuag at gyflawni.

Ein barn

Mae gorfodi effeithiol yn allweddol i weithredu rheoliadau presennol ac yn y dyfodol yn llwyddiannus gyda'r nod o hyrwyddo safonau lles uchel mewn sefydliadau bridio cŵn a mynd i'r afael â bridwyr didrwydded ac anghyfrifol.

Yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft 2020-21 fe wnaethom godi pryder ynghylch sut y byddai awdurdodau lleol yn talu'r costau sy'n gysylltiedig â rheoleiddio sefydliadau bridio cŵn yn fwy a chyflwyno'r gwaharddiad arfaethedig ar werthu cŵn bach a chathod bach gan drydydd parti masnachol. Rydym yn falch bod y Gweinidog wedi ymateb yn gadarnhaol trwy sefydlu prosiect treialu tair blynedd i gynyddu gallu ac arbenigedd mewn awdurdodau lleol i gefnogi camau gorfodi rheoliadau presennol ac yn y dyfodol. Gobeithiwn y

bydd hyn yn mynd i'r afael â'r pryderon diweddar a godwyd gan grwpiau lles anifeiliaid, gan gynnwys Grŵp Lles Anifeiliaid Anwes Cymru, ynghylch rhwystrau parhaus i orfodi.

Byddem yn croesawu eglurhad gan y Gweinidog ynghylch lefel y cyllid a ddarperir ar gyfer y prosiect treialu, gan gynnwys dyraniad y gyllideb ar gyfer 2021-22. Hoffem fanylion hefyd am unrhyw waith sy'n bodoli neu a gynlluniwyd i asesu effaith y prosiect treialu ar alluoedd awdurdodau lleol i orfodi a darparu adnoddau, a chamau gorfodi.

Argymhelliad 16. Dylai'r Gweinidog egluro lefel y cyllid a ddarperir ar gyfer y prosiect treialu i wella capasiti ar draws gwasanaethau archwilio a gorfodi lles anifeiliaid awdurdodau lleol, gan gynnwys dyraniad y gyllideb ar gyfer 2021-22.

Argymhelliad 17. Dylai'r Gweinidog ddarparu manylion unrhyw waith sy'n bodoli neu a gynlluniwyd i asesu effaith y prosiect treialu ar alluoedd awdurdodau lleol i orfodi a darparu adnoddau, a chamau gorfodi.

9. Cyfoeth Naturiol Cymru

50. Mae cyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru ('CNC') ar gyfer 2021-22 yn cynnwys newidiadau bach o'i chymharu â 2020-21. Ni fu unrhyw newid i'r Cymorth Grant craidd ar gyfer CNC yn 2021-22.

51. Bydd gan CNC gyfrifoldebau ychwanegol yn 2021, gan gynnwys cyflawni camau yn Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndir. Mae CNC hefyd yn gorff allweddol wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth.

52. Yn ystod sesiwn graffu ddiweddar y Pwyllgor gyda CNC, fe wnaethom ofyn am ei gyllid gan Lywodraeth Cymru a'i incwm o weithgareddau masnachol. Dywedodd CNC wrth y Pwyllgor ei fod yn cael tua £3 miliwn y flwyddyn am gostau rheoli a gweithredu ffermydd gwynt, a bod incwm o £8 miliwn yn cael ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru. Dywedodd CNC ei fod yn trafod gyda Llywodraeth Cymru pa un a oedd cyfle i gadw rhywfaint o'r incwm, y gallai ei ddefnyddio o bosibl i ariannu prosiectau bioamrywiaeth.

53. Esboniodd CNC fod y bwlch rhwng ei incwm a'i wariant wedi'i reoli trwy ddwyn cronfeydd wrth gefn o bren ac incwm arall yn y gorffennol. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn bosibl mwyach oherwydd newidiadau a gyflwynwyd yn dilyn prosiect alinio Llywodraeth Cymru.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

54. Yn ôl y Gweinidog, mae cyllid CNC yn ddigonol ar gyfer eu cyfrifoldebau statudol, er y byddai'n well ganddi roi cyllideb fwy i CNC.

55. Ychwanegodd y Gweinidog ei bod wedi darparu cyllid ychwanegol i CNC yn sgil llifogydd Chwefror 2020.

56. Esboniodd y Gweinidog pan sefydlwyd y rhaglen ffermydd gwynt, y cytunwyd y byddai'r incwm yn cael ei gadw gan Lywodraeth Cymru, a bod hynny'n cael ei gadw'n ganolog. Dywedodd fod y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi cytuno'n ddiweddar y gellid cadw incwm o ffermydd gwynt ym MEG yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig i gefnogi'r agenda ynni a newid hinsawdd.

57. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud:

"Obviously, the land that NRW manage for us is Welsh Government estate, so I think it is right that the income is retained by Welsh

Government, and I'll look then at ways of utilising this returned funding within my portfolio, which may include some going back to NRW to deliver these priorities.”

Ein barn

Mewn adroddiadau olynol ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ac, yn fwy diweddar, yn ein hadroddiad, Llifogydd yng Nghymru (Rhagfyr 2020), rydym wedi mynegi pryder ynghylch lefel y cyllid sydd ar gael i CNC i gyflawni ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau yn effeithiol. Mae'n anodd cysoni honiad y Gweinidogion bod cyllid ar gyfer CNC yn ddigonol â'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chael gan CNC o bwysau cyllidebol.

Fel y nodwyd rhywle arall yn yr adroddiad hwn, mae angen brys i gyflymu ymdrechion i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae CNC yn rhan arweiniol o hyn ac o gefnogi cyflawniad adferiad gwyrdd. Byddem wedi disgwyl i hyn gael ei adlewyrchu'n well yn y gyllideb ddrafft.

Nodwn fod y Gweinidog wedi bod yn trafod gyda'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ynghylch y potensial i neilltuo incwm o ffermydd gwynt i ariannu prosiectau ynni a newid hinsawdd. Nid yw'n eglur pa gyfran o hyn fyddai'n cael ei ddyrannu i CNC. Hoffem i'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y mater hwn cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Rydym yn pryderu y gallai newidiadau diweddar i'r trefniadau cyfrifyddu ariannol sy'n atal cario ymlaen gronfeydd wrth gefn greu pwysau cyllidebol ychwanegol ar CNC. Byddem yn croesawu manylion unrhyw asesiad a wneir o effaith y newidiadau hyn ar allu CNC i reoli pwysau cyllidebol parhaus. Byddem hefyd yn croesawu esboniad o sut yr ystyriwyd hyn wrth bennu dyraniadau CNC.

Argymhelliad 18. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlynol pa gyfran o'r incwm sydd wedi'i neilltuo o ffermydd gwynt y mae'n bwriadu ei dyrannu i CNC.

Argymhelliad 19. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar unrhyw asesiad a wneir o'r effaith y bydd atal CNC rhag cario cronfeydd wrth gefn ymlaen yn ei chael ar ei allu i reoli pwysau cyllidebol parhaus, a sut yr ystyriwyd hyn wrth bennu dyraniadau cyllideb CNC yn 2021-22.

10. Llifogydd ac erydu arfordirol

58. Cyfanswm BEL 2230 (Rheoli llifogydd a pherygl a refeniw dŵr) yw £66.9 miliwn, i fyny o £64.7 miliwn yn 2020-21, ac mae'n cynnwys £29 miliwn o adnodd a £37.5 miliwn o gyfalaf. Mae'r cynnydd yn cynnwys £3.4 miliwn o refeniw ychwanegol ar gyfer Rheoli Risgiau Arfordirol.

59. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol newydd ('y Strategaeth Genedlaethol') ar 20 Hydref 2020. Mae'r Strategaeth yn nodi pum amcan ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol a 24 Mesur i'w cyflawni.

60. Sefydlwyd Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2019 i leihau'r risgiau o amgylch yr arfordir ac mae'n cael ei chyflawni gan awdurdodau lleol. Mae'r Rhaglen yn un tair blynedd sy'n werth £150 miliwn a ariennir drwy fenter fenthyca llywodraeth leol.

61. Ar gyfer cyllidebau drafft blaenorol, mae'r Gweinidog wedi rhoi arwydd o gyllid llifogydd i CNC yn BEL 2230 (Rheoli llifogydd a risg a refeniw dŵr). Fodd bynnag, nid yw'n eglur faint o arian llifogydd fydd ar gael i CNC yn 2021-22.

62. Mewn tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor i ddigwyddiadau llifogydd Chwefror 2020, dywedodd CNC y bydd angen oddeutu 60 i 70 o aelodau staff dros y llinell sylfaen gyfredol i gyflawni gwelliannau hirdymor, cynaliadwy yn ei wasanaethau rheoli llifogydd. Hefyd, dywedodd CNC y bydd angen cryn ymdrech a chyllid refeniw i weithredu'r Mesurau yn y Strategaeth Genedlaethol yn llawn.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

63. Esboniodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi tua £0.5 biliwn mewn rheoli llifogydd yn ystod y Pumed Senedd. Esboniodd hefyd ei bod wedi cael gwared ar rwystrau cyllid i awdurdodau lleol i'w galluogi i gyflawni cynlluniau llifogydd, er enghraifft, trwy ddarparu 100% o gyllid ar gyfer paratoi a dylunio cynlluniau newydd.

64. Pan ofynnwyd iddi a fyddai cyllid ychwanegol yn cael ei ddyrannu i Awdurdodau Rheoli Risg perthnasol i weithredu'r Mesurau a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol, dywedodd y Gweinidog nad oes unrhyw ofynion cyllido ychwanegol yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, aeth ymlaen i ddweud:

“...we have given additional funding that's been allocated specifically for those measures and you're right, I gave it to NRW this year. But most

measures offer a better way of working, and as I say, I think we will see some cost savings and efficiencies rather than the need for additional funding, but I certainly did give additional funding to NRW.”

65. Pan ofynnwyd iddi faint o arian sydd wedi'i ddyrannu i CNC yn 2021-22 i gyflawni ei swyddogaethau llifogydd, dywedodd y Gweinidog:

“NRW haven't given us the specifics around their requirements for the next financial year...I will set out their flood allocation in that remit letter.”

66. Wrth wneud sylwadau ar ofynion staff CNC, nododd y Gweinidog:

“...staffing is an organisational matter for NRW...We've provided additional funding, as I said, in line with their work programme, and I know they did bring additional staff in...I have asked them to ensure that their flood teams remain fully resourced because this is such an area of priority, not just for them but for us, too.”

Ein barn

Fel yr amlinellwyd yn ein hadroddiad, Llifogydd yng Nghymru (Rhagfyr 2020), mae effeithiau newid hinsawdd yn debygol o arwain at dywydd mwy eithafol ac yn sgil hynny digwyddiadau llifogydd tebyg i'r rhai a welwyd ledled Cymru ym mis Chwefror 2020. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae llifogydd yn dilyn Storm Christoph wedi effeithio ar rannau o Gymru. Nid ydym yn gwybod eto beth yw union ddifrod y llifogydd.

Gan gofio hyn, mae'n bwysicach nag erioed i Lywodraeth Cymru wella ei dull strategol o atal llifogydd a rheoli perygl llifogydd. Rydym yn croesawu cyhoeddiad diweddar Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru, ond mae'n rhaid bod lefel briodol o fuddsoddiad ar gyfer hyn os yw am fod yn effeithiol.

Yn ein hadroddiad, Llifogydd yng Nghymru, rydym yn gwneud cyfres o argymhellion gyda'r nod o sicrhau bod gan Awdurdodau Rheoli Risg gyllid digonol i gyflawni eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau, gan gynnwys cyflawni'r Mesurau a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol. Disgwylwn i'r Gweinidog ystyried canfyddiadau ein hadroddiad wrth ddyrannu cyllid llifogydd i CNC yn 2021-22. Hoffem i'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ddyraniad y gyllideb ar gyfer cyllid llifogydd i CNC cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Argymhelliad 20. Dylai'r Gweinidog ystyried canfyddiadau'r Pwyllgor hwn yn ei adroddiad Llifogydd yng Nghymru wrth bennu cyllid Llifogydd CNC yn 2021-22. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ôl gwneud penderfyniad ar ariannu Llifogydd.

11. Bioamrywiaeth

67. Mae £5 miliwn o gyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu i 'fioamrywiaeth' trwy flaenoriaeth 'adeiladu dyfodol gwyrddach' y gyllideb ddrafft. Mae hyn yn cynnwys £3.6 miliwn o refeniw ychwanegol wedi'i ddyrannu i BEL 2825 (Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion), ac £1.5 miliwn i BEL 2490 (Bioamrywiaeth - Tirwedd a Hamdden Awyr Agored).

68. Dyrannodd cyllideb 2020-21 £15 miliwn o gyllid cyfalaf i gefnogi gwaith adfer rhwydwaith Natura 2000. Nid yw cyllideb ddrafft 2021-22 yn nodi faint sydd wedi'i ddyrannu at y diben hwn. Fodd bynnag, yn [Ail-greu ar ôl COVID-19: yr heriau a'r blaenoriaethau](#) Llywodraeth Cymru cyhoeddodd gronfa gwerth £2.6 miliwn i helpu i adfer cynefinoedd, rhwydwaith Natura 2000, ac i ddechrau llwybr i wrydroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

69. Yn ôl y Gweinidog, mae Llywodraeth Cymru wedi "cymryd camau i lwyr ymwreiddio ystyriaethau'n ymwneud â bioamrywiaeth ar draws y llywodraeth... yn fwyaf arbennig, trwy gyfrwng ein proses gyllidebu". Arweiniwyd hyn gan Dasglu Bioamrywiaeth, a ariannwyd trwy gyllideb 2020-21. Mae cyllid ychwanegol wedi'i ddarparu ar gyfer 2021-22 i barhau â'r gwaith hwn.

70. Dywedodd y Gweinidog fod pecyn cyllid gwerth £33 miliwn wedi'i ddyrannu'n benodol ar gyfer bioamrywiaeth, natur a'r Goedwig Genedlaethol. Dywedodd fod hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru:

"...i adeiladu ar y prosiectau a'r rhaglenni sydd gennym ar waith i'n helpu i gwrdd â'n hymrwymiaidau cenedlaethol a rhyngwladol mewn perthynas â bioamrywiaeth ac ymdrin â'r argyfwng natur a'r argyfwng hinsawdd, gan sicrhau yr un pryd y bydd ein hadferiad ar ôl Covid-19 yn adferiad gwirioneddol wyrdd."

71. Tynnodd y Gweinidog sylw at nifer o raglenni sy'n cyfrannu at wrydroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, gan gynnwys y buddsoddiad parhaus yn y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndir (NPAP), a dwy raglen ariannu a gyflwynwyd drwy Sefydliad Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: y Gronfa Adferiad Gwyrdd a'r Gronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.

72. Dywedodd y Gweinidog fod rhaglen Coedwig Genedlaethol Llywodraeth Cymru "wrth galon ei[n] dull ymdrin â'r dirywiad a mynd i'r afael â bioamrywiaeth".

Esboniodd yn ogystal â chynnal cyllid cyfalaf ar £4.5 miliwn yn 2021-22, bod cyllid refeniw ychwanegol o £5 miliwn wedi'i ddarparu i gyflymu'r rhaglen.

73. Pan ofynnwyd iddi sut y defnyddiwyd y dyraniad cyllideb o £15 miliwn yn 2020-21 ar gyfer Natura 2000, esboniodd y Gweinidog fod £2.6 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer 15 prosiect, a £2.8 miliwn arall i gefnogi adferiad ar safleoedd Natura 2000 a reolir gan CNC. Dywedodd y bu'n eithaf heriol defnyddio cyllid Natura 2000 gan fod llawer o staff cyrff anllywodraethol amgylcheddol wedi eu rhoi ar ffyrlo o ganlyniad i bandemig Covid-19.

74. Esboniodd swyddog y Gweinidog fod cyfanswm o £10.5 miliwn o gyllid Natura 2000 wedi'i ddyrannu. Defnyddiwyd rhywfaint o hwn i sicrhau buddion ar gyfer bioamrywiaeth trwy feysydd eraill, er enghraifft, dyraniad i gynllun adfer y diwydiant coedwig a gwaith cronfeydd dŵr. Ychwanegodd fod gwaith ar y gweill i nodi sut y gellid defnyddio'r dyraniad sy'n weddill i gyflawni camau sy'n deillio o waith y Tasglu Adferiad Gwyrdd.

Ein barn

Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â llywodraethau ledled y DU a gweddill y byd, wedi methu â chyrraedd y rhan fwyaf o dargedau Bioamrywiaeth Aichi ar gyfer 2020. Mae hyn yn siomedig iawn. Mae angen brys i Lywodraeth Cymru gyflymu ymdrechion i sicrhau y gwneir cynnydd tuag at y targedau byd-eang newydd, uchelgeisiol a addawyd.

Yn ôl rhanddeiliaid, amcangyfrifir mai'r gost flynyddol i gynnal, creu ac adfer cynefinoedd blaenoriaeth Cymru yn unig yw £120 miliwn. Yn yr un modd, amcangyfrifir bod angen £16 miliwn y flwyddyn dros y degawd nesaf i gynyddu gorchudd coed yn sylweddol. Er ein bod yn nodi y bu cynnydd cymedrol yn y cyllid ar gyfer bioamrywiaeth, mae'n is na'r hyn sydd ei angen i sicrhau cynnydd gwirioneddol wrth adfer amgylchedd naturiol Cymru.

Rydym yn sylweddoli na fydd arian cyhoeddus yn ddigon ar ei ben ei hun i ateb maint y buddsoddiad sydd ei angen i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae angen eglur i Lywodraeth Cymru ddatblygu ffyrdd eraill o ennyn buddsoddiad o ffynonellau eraill, gan gynnwys y sector preifat ac incwm a ddaw o gael y llygrwr i dalu. Mae'n rhaid bwrw ymlaen â'r gwaith hwn fel mater o flaenoriaeth.

Mae'r Gweinidog wedi cydnabod effaith pandemig Covid-19 ar gyflawni prosiectau adfer natur. Mae lefel sylweddol o arian a ddyrannwyd ar gyfer Natura 2000 yn 2021-21 wedi'i defnyddio at ddibenion eraill. Er ein bod yn

derbyn y bu hyn yn anochel o bosibl, mae'n dal yn peri siom. Nid yw'n eglur faint o arian sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer Natura 2000 yn 2021-22. Nid yw'n bosibl, felly, penderfynu a fydd y cyllid hwn yn ddigonol i gyflymu'r broses o gyflawni prosiectau wrth i Gymru ddod allan o'r pandemig. Byddem yn croesawu eglurhad ynglŷn â hyn.

Rydym wedi clywed adroddiadau pryderus gan gyrrff anllywodraethol amgylcheddol am effaith y pandemig ar y sector, gan gynnwys colledion incwm ac anawsterau wrth gael gafael ar gyllid grant. Mae hyn yn risg ddifrifol i gyflawni rhaglenni amgylcheddol Llywodraeth Cymru yn barhaus, gan gynnwys y rhai sydd â'r nod o adfer bioamrywiaeth. O ystyried hyn, a'r mewnbwn sy'n ofynnol gan gyrrff anllywodraethol amgylcheddol i gyflawni adferiad gwyrdd, mae'n rhaid cymryd camau i sefydlogi'r sector.

Rydym yn falch, felly, fod y Gweinidog wedi ymateb yn brydlon ac yn gadarnhaol i ganfyddiadau'r Tasglu Adferiad Gwyrdd, gan sefydlu Cynllun Adeiladu Capasiti yr Adferiad Gwyrdd i helpu i gynyddu capasiti yn y sector. Nid yw'n eglur a yw canfyddiadau'r Tasglu o ran cefnogi'r sector wedi dylanwadu ar y dyraniadau yn 2021-22 na sut. Hoffem i'r Gweinidog adrodd yn ôl i ni ar y mater hwn cyn y cynnig cyllideb blynyddol.

Argymhelliad 21. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddechrau rhaglen waith i ddatblygu ffyrdd eraill o ennyn buddsoddiad, megis o'r sector preifat, i gefnogi cyflawniad camau i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a newid hinsawdd.

Argymhelliad 22. Dylai'r Gweinidog egluro'r dyraniad cyllideb yn 2021-22 ar gyfer Natura 2000. Dylai hefyd nodi ei barn ar ba un a yw'n ddigonol i gyflymu'r broses o gyflawni prosiectau wrth i Gymru ddod allan o'r pandemig.

Argymhelliad 23. Dylai'r Gweinidog egluro a yw canfyddiadau'r Tasglu Adferiad Gwyrdd o ran cefnogi'r sector amgylcheddol wedi dylanwadu ar ddyraniadau 2021-22 a sut. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i ni ar y mater hwn cyn y cynnig cyllideb blynyddol.

12. Y môr a physgodfeydd

75. Mae BEL 2870 (Morol a physgodfeydd) yn dyrannu £4.9 miliwn ar gyfer 2021-22, gyda chyfanswm o £450,000 o'r gyllideb ar gyfer y maes hwn wedi'i gyflwyno ar wahân fel cyllideb heblaw arian parod.

76. Mae BEL 2830 (Cynlluniau Pysgodfeydd a Ariennir gan yr UE) yn dyrannu cyfalaf o £2.7 miliwn ar gyfer 2021-22, sy'n gynnydd o £565,000 ar gyllideb ailddatganedig 2020-21. Mae'r dyraniad ychwanegol i'r gronfa wrth gefn yn gronfa newydd ar ôl yr UE gwerth £2.1 miliwn (o'r £13.2 miliwn ar gyfer ffermio a physgodfeydd ar ôl yr UE) a gyhoeddwyd yn rhan o **adolygiad o wariant** Llywodraeth y DU ym mis Tachwedd 2020. Dywedodd y Gweinidog y bydd hyn yn helpu i ryw raddau i gefnogi'r sector morol a physgodfeydd "sy'n arbennig o agored i niwed yn sgil y newidiadau a gyflwynir o ganlyniad i ymadael â'r UE".

Tystiolaeth gan y Gweinidog

77. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn ymwybodol iawn o'r heriau y mae'r sector pysgodfeydd yn eu hwynebu yn sgil rhwystrau di-dariff yn dilyn diwedd cyfnod pontio'r UE. Ychwanegodd:

"I think it is an area—and I've flagged this up already with DEFRA—where we may have to look at having a specific scheme to support [the sector] because, clearly, there are some issues...officials are in—daily contact with our exporters and with our fisheries stakeholders and we are pressing the UK Government around this."

78. Esboniodd y Gweinidog fod cyllid a ddyrannwyd yn 2020-21 ar gyfer dynodi Parthau Cadwraeth Forol wedi'i ddefnyddio at ystod o ddibenion, gan gynnwys arolygon alltraeth, ac i gefnogi cyflwyno'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig 2019-20.

Ein barn

Mewn adroddiadau blaenorol ar gyllidebau drafft, rydym wedi galw am well tryloywder mewn cysylltiad â'r BEL morol a physgodfeydd, yn benodol, y lefel y cyllid sydd ar gael ar gyfer rheolaeth a chadwraeth forol. Rydym wedi'n siomi nad fu gweithredu ar hyn. Hoffem fanylion am ddyraniad y gyllideb yn 2021-22 ar gyfer rheolaeth a chadwraeth forol, gan gynnwys sut y caiff ei ddefnyddio.

Mae diwydiant pysgota Cymru yn wynebu heriau digynsail ac ansicrwydd ariannol, wrth i lawer o fusnesau weld colledion sylweddol dros gyfnod

estynedig. Mae'r diwydiant eisoes yn ei chael yn anodd goroesi effaith barhaus pandemig Covid-19, wrth i'r cyfyngiadau arwain at ostyngiad mewn allforion a galw domestig. Mae hyn wedi'i gymhlethu gan golledion difrifol oherwydd y tarfu ar fasnach yn dilyn diwedd Gweithrediad yr UE yn ddiweddar. Codwyd pryderon gan y diwydiant ynghylch hyfywedd economaidd busnesau, y mae llawer ohonynt yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor cymunedau arfordirol Cymru.

Roedd Grant Cymorth Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru yn ymyriad yr oedd ei angen yn fawr ac i'w groesawu, a rhoddodd gymorth i'r diwydiant yn gynnar yn ystod pandemig Covid-19. Yn flaenorol mae'r Gweinidog wedi nodi nad oes ganddi unrhyw fwriad i ymestyn y Grant. Mae hyn yn peri siom, yn arbennig o ystyried adroddiadau'r diwydiant nad yw llawer o fusnesau yn gymwys i gael ymyriadau cymorth ariannol eraill, neu eu bod yn wynebu rhwystrau rhag cael mynediad at y rhain. Credwn fod achos cryf i'r Gweinidog ailystyried ei safbwynt ac ymestyn y Grant Cymorth Pysgodfeydd. Hoffem i'r Gweinidog ystyried hyn.

Rydym yn pryderu'n fawr ynghylch yr effaith ar ddiwydiant pysgota Cymru, yn enwedig y sector pysgod cregyn yn sgil yr oedi mewn porthladdoedd yn dilyn diwedd Cyfnod Gweithredu'r UE y ceir adroddiadau helaeth yn ei gylch. Nodwn fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cymorth o £23 miliwn yn ddiweddar i fusnesau allforio pysgod yn y DU i dalu am golledion a ysgwyddwyd. Croesewir y datblygiad hwn. Disgwylwn i Lywodraeth Cymru gymryd camau priodol i annog pobl ar draws y diwydiant yng Nghymru i fanteisio ar hyn.

Argymhelliad 24. Dylai'r Gweinidog ddarparu manylion am ddyraniad y gyllideb yn 2021-22 ar gyfer rheolaeth a chadwraeth forol, a sut y caiff ei ddefnyddio.

Argymhelliad 25. Dylai'r Gweinidog fyfyrion ar ei phenderfyniad blaenorol i beidio ag ymestyn y Grant Cymorth Pysgodfeydd, o ystyried y dystiolaeth a gafwyd gan y Pwyllgor hwn nad yw ymyriadau cymorth ariannol cyfredol yn diwallu anghenion y diwydiant.

13. Gwastraff

79. Yn ddiweddar, mae'r cyfrifoldeb am bolisi gwastraff wedi trosglwyddo o'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig. Mae cyllideb agoriadol refeniw adnoddau ychwanegol o £48.7 miliwn o ganlyniad i'r ad-drefnu gweinidogol o faes Tai a Llywodraeth Leol. Mae'r ffigur sylfaenol hwn yn cynnwys £10 miliwn i BEL 2490 (Tirwedd & Hamdden Awyr Agored) a £38.7 miliwn i BEL 2190 (Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol).

80. Cyfanswm BEL 2190 yw £82.8 miliwn, sy'n cynnwys £45.3 miliwn o ddyraniad adnodd a £37.5 miliwn o ddyraniad cyfalaf. Mae'r dyraniad adnoddau yn cynnwys £6.6 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer 'adeiladu dyfodol gwyrddach', ac mae'r dyraniad cyfalaf yn cynnwys gwerth £20 miliwn o gyllid ychwanegol o gronfeydd wrth gefn.

81. Ym mis Ionawr 2020, nododd Llywodraeth Cymru gynigion i 'symud tuag at ddyfodol diwastraff erbyn 2050' mewn strategaeth economi gylchol newydd, [Mwy Nag Ailgylchu](#). Honnodd y Gweinidog fod gweithredu ar yr economi gylchol yn rhan allweddol o adferiad gwyrdd.

82. Ar 18 Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei [bwriad i wahardd y defnydd o blastig untro](#), a disgwylir i'r cyfyngiadau ddod i rym yn hanner gyntaf 2021. Esboniodd y Gweinidog y bydd y gwaith ar y gwaharddiad arfaethedig yn parhau trwy gyllidebau sylfaenol.

83. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda llywodraethau eraill y DU i fwrw ymlaen â chynigion ar gyfer Cynllun Dychwelyd Ernes a Chyfrifoldeb Cynhyrchydd Estynedig ar gyfer gwastraff pecynnu. Mae cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes a Chyfrifoldeb Cynhyrchydd Estynedig yn dibynnu ar ddarpariaethau ym Mil yr Amgylchedd y DU. Mae adroddiadau diweddar yn awgrymu bod Bil y DU wedi'i oedi ail waith ac y bydd yn parhau â'i hynt trwy Senedd y DU yn y sesiwn Seneddol nesaf.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

84. Dywedodd y Gweinidog nad oedd hi wedi trafod lefelau cyllid o ran y cynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchydd Estynedig gyda Llywodraeth y DU hyd yn hyn. Fodd bynnag, roedd hi'n rhagweld y byddai cyllid yn cyd-daro â chychwyn y cynllun.

Ein barn

Deallwn fod disgwyl i gynigion manwl ar ddyluniad y Cynllun Dychwelyd Ernes a'r Cyfrifoldeb Cynhyrchedd Estynedig gael eu cyhoeddi tua dechrau 2021. Fodd bynnag, gan fod Bil yr Amgylchedd y DU wedi oedi ail waith, rydym yn pryderu bod rheoliadau i sefydlu'r cynlluniau ymhell o fod wedi'u gosod. Hoffem i'r Gweinidog egluro effaith yr oedi diweddaraf yn hynt Bil yr Amgylchedd y DU ar yr amserlen ar gyfer cyflwyno rheoliadau.

Nid yw'n eglur a yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad o'r costau gweithredu ar gyfer y Cynllun Dychwelyd Ernes a'r Cyfrifoldeb Cynhyrchedd Estynedig i lywio ei thrafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â chyllid yn y dyfodol. Byddem yn croesawu eglurhad ar hyn. Byddem hefyd yn croesawu eglurhad ar unrhyw ddyraniad cyllideb yn 2021-22 i dalu cost gweithredu'r cynlluniau.

Argymhelliad 26. Dylai'r Gweinidog egluro effaith yr oedi diweddaraf yn hynt Bil yr Amgylchedd y DU trwy Senedd y DU ar yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Dychwelyd Ernes a'r Cyfrifoldeb Cynhyrchedd Estynedig ar gyfer pecynnu plastig. Dylai'r Gweinidog hefyd osod cynigion ar gyfer gweithredu'r Cynllun Dychwelyd Ernes.

Argymhelliad 27. Dylai'r Gweinidog ddarparu manylion unrhyw asesiad a wneir o'r costau gweithredu ar gyfer y Cynllun Dychwelyd Ernes a'r Cyfrifoldeb Cynhyrchedd Estynedig ar gyfer pecynnu plastig. Dylai hefyd adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â chyllid yn y dyfodol i gefnogi gweithrediad y cynlluniau hyn.